## SUT I REOLI FY ASTHMA AR ÔL GADAEL YR YSBYTY

Bydd y rhan fwyaf o bobl gydag asthma yn cael cwrs o steroidau (prednisolon) pan fyddant yn anhwylus.

- Os ydych chi wedi dechrau ar gwrs o brednisolon, mae'n bwysig eich bod yn cwblhau'r cwrs a roddwyd i chi.
- Cadwch eich triniaethau rheolaidd i fynd, fel y cynghorwyd.
- Dylech wneud apwyntiad i weld eich Meddyg Teulu ymhen 48 awr ar ôl i chi gael eich rhyddhau.

## CLINIG ASTHMA'R MEDDYG TEULU

**Gofynnwch am adolygiad os**

- Ydych yn cael llawer o byliau ysgafn.
- Defnyddio'ch anadlydd lliniaru fwy na thair gwaith yr wythnos, os oes gennych un.
- Defnyddiwch y "Prawf Rheoli Asthma" i weld sut rydych chi'n gwneud. Dewch o hyd iddo yn **www.asthma.org.uk**

## CYN YMARFER CORFF

Mae'n bosib y bydd cymryd fy lliniarydd cyn i mi ddechrau yn fy atal rhag gwichian a pheswch.

*Dyluniwyd gan Sefydliad Gwyddoniaeth Glinigol a Thechnoleg*

## SBARDUNAU SY'N GWNEUD I MI WICHIAN

**Rhestrwch isod:**

## DYMA FY NGHYSYLLTIADAU

**Meddyg (Meddyg Teulu):**

**Nyrs:**

**Ymgynghorydd ysbyty:**

## Am roi'r gorau i ysmygu?

I gael cymorth a chyngor am ddim ewch i weld eich Meddyg Teulu neu ffoniwch am ddim

**0800 085 2219**

www.helpmequit.wales



GIG CYMRU NHS WALES

# ASTHMA

Cynllun Rheoli

Asthmahub

I gael mynediad at eich cynllun a chael canllawiau ar reoli eich asthma, lawrlwythwch ap AsthmaHub o'r Google Play a'r App Store

Download on the App Store

GET IT ON Google Play

Y Grŵp Gweithredu ar Iechyd Anadlol
Respiratory Health Implementation Group

# MONITRO'CH ASTHMA

## Teimlo'n weddol

Rwy'n pesychu ac yn gwichian yn y nos.

Mae angen fy mewnanadlydd lliniarol arnaf yn fwy na'r arfer .

Mae fy symptomau yn ymyrryd â fy ngweithgareddau o ddydd i ddydd.

Ar hyn o bryd rwy'n cymryd fy mewnanadlydd lliniarol fwy na thair gwaith yr wythno.s

**Os yw gwerth eich briglif rhwng ______ a ______**

### Beth i wneud nesaf

- **Parhewch gyda therapi ataliol rheolaidd fel y rhagnodwyd.**
- **Dechreuwch therapi ataliol rheolaidd eto os nad ydych wedi bod yn ei ddefnyddio.**
- **Cynyddwch eich therapi ataliol rheolaidd os cewch eich cynghori gan eich nyrs asthma.**
- **Defnyddiwch eich therapi lliniarol yn ôl yr angen.**

## Teimlo'n Gymedrol

Ar hyn o bryd rwy'n cymryd fy mewnanadlydd lliniarol fwy na thair gwaith yr wythnos.

Mae fy symptomau yn ymyrryd â fy ngweithgareddau o ddydd i ddydd.

Mae angen fy mewnanadlydd lliniarol arnaf yn fwy na'r arfer.

Rwy'n pesychu ac yn gwichian yn y nos.

**Os yw gwerth eich briglif rhwng ______ a ______**

### Beth i wneud nesaf

- **Parhewch gyda therapi ataliol rheolaidd fel y rhagnodwyd.**
- **Dechreuwch therapi ataliol rheolaidd eto os nad ydych wedi bod yn ei ddefnyddio.**
- **Cynyddwch eich therapi ataliol rheolaidd os cewch eich cynghori gan eich nyrs asthma.**
- **Defnyddiwch eich therapi lliniarol yn ôl yr angen.**
- **Dechreuwch becyn achub steroidau drwy'r. geg os ydynt wedi'u rhagnodi i chi.**
- **Gwnewch apwyntiad yr un diwrnod i weld Meddyg Teulu neu nyrs practis.**
- **Defnyddiwch fewnanadlydd lliniarol yn ôl yr angen bob 4 awr.**

## Os ydych chi'n cael pwl difrifol

Mae'r pesychu a'r gwichian yn eich poeni neu rydych yn anadlu'n galed.

Rwy'n rhy fyr o wynt i gwblhau brawddegau.

Rwy'n rhy fyr o wynt i allu siarad.

Nid yw fy therapi lliniarol yn helpu neu nid yw'n para'n hir.

**Mae fy mriglif cyfredol fwy to llia na ______**

### Beth i'w wneud nesaf wrth aros i gael eich gweld!

- **Peidiwch â chynhyrfu, eisteddwch yn syth.**
- **Cymerwch un pwff o'ch mewnanadlydd lliniarol bob 30-60 eiliad hyd at uchafswm o 10 pwff.**
- **Parhewch â defnyddio 10 pwff o'r mewnanadlydd lliniarol mor aml ag sydd angen.**
- **Os oes gennych becyn achub o steroidau drwy'r geg sydd wedi'u rhagnodi dechreuwch gymryd y rhain.**

**Os nad yw'ch symptomau'n setlo, parhewch i ffonio 999 am ambiwlans neu ewch i'r adran damweiniau ac achosion brys ar unwaith**

**Sicrhewch eich bod yn cael eich gweld gan eich meddyg teulu neu nyrs practis cyn pen 48 awr ar ôl ymosodiad asthma i sicrhau bod eich meddyginiaeth yn cael ei hadolygu i atal ymosodiad pellach.**

## Pan fyddwch yn iach

Dim gwichian, dim peswch a dim tyndra yn y frest.

Nid ydw i'n cael anhawster cysgu.

Nid yw fy asthma yn ymyrryd â fy ngweithgareddau beunyddiol.

Ar hyn o bryd, nid ydw i'n cymryd fy therapi lliniarol fwy na thair gwaith yr wythnos.

**Mae fy mriglif presennol yn fwy na ______**

### Beth i wneud nesaf

- **Parhewch gyda therapi ataliol rheolaidd fel y rhagnodwyd.**
- **Os ydych chi'n aros yn iach am dros 3 mis, adolygwch eich meddyginiaeth gyda'ch nyrs meddygfa.**

## WRTH I CHI WELLA

**Cynyddwch y mewnanadlydd lliniarol i 6-10 pwff bob 4 awr trwy wahanydd**

**Os nad ydych chi'n gwella, ewch i weld eich Meddyg Teulu heddiw**

**Os ydych chi'n gwella, ewch i weld eich Meddyg Teulu yn ystod yr ychydig dyddiau nesaf**

**Parhewch â'ch triniaeth ataliol treatment**

## Fy nhriniaeth reolaidd

**Therapi lliniarol**

______

**Therapi ataliol**

______

**Steroid achub yn y cartref/arall**

______